

Ciplun ar dlodi yng Ngaeaf 2024

Mawrth 2024



Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan ydy melin drafod mwya dylanwadol Cymru. Rydyn ni'n creu mewnwelediadau, syniadau ac effeithiau sy'n helpu i ddod â thlodi ac anghydraddoldeb i ben. Rydyn ni'n annibynnol, deallus, ysgogol a chynhwysol ym mhopeth a wnawn.

Fel elusen gofrestredig annibynnol, mae Sefydliad Bevan yn dibynnu ar haelioni unigolion a sefydliadau ar gyfer ei waith.

Diolchiadau

Mae'r ddogfen hon yn rhan o brosiect gwaith ehangach rhwng Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph Rowntree. Hoffai Sefydliad Bevan ddiolch i Sefydliad Joseph Rowntree am eu cymorth parhaus.

Y modd y gallwch chi helpu

Mae cannoedd o bobl a sefydliadau ar draws Cymru yn galluogi Sefydliad Bevan i siarad yn erbyn tlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder. Ni fydden ni'n bodoli heb eu cymorth.

Er mwyn gwneud Cymru yn genedl ffyniannus i bawb, lle gall pawb gyflawni eu potensial, waeth pwy ydyn nhw na ble maen nhw'n byw, ymunwch â'n cymuned o gefnogwyr.

Mae eich cymorth chi a chymorth eraill yn gwneud gwahaniaeth i ni a gwahaniaeth i Gymru.

I gael gwybod rhagor, ewch i <https://www.bevanfoundation.org/support-us/individuals/> neu anfon e-bost at info@bevanfoundation.org i ddarganfod yr hyn y gallwch chi ei wneud

Llun Clawr: Delwedd stoc gan Shutterstock

Hawlfraint Sefydliad Bevan
Sefydliad Bevan, 145a Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP
info@bevanfoundation.org www.bevanfoundation.org

Rhif elusen gofrestredig: 1104191 Rhif Cofrestriad y Cwmni yng Nghymru 4175018

1. Crynodeb

Yn ystod y pedair blynedd diwethaf, mae pobl yng Nghymru wedi wynebu sialensiau na fyddai neb yn eu dychmygu ar ddechrau'r degawd. Rhwng Covid-19 a'r argyfwng costau byw, mae pobl a chymunedau wedi bod dan bwysau sylweddol. Mewn cyfnod mor ansicr â hyn, mae arolygon Sefydliad Bevan o Gipolwg ar Dlodi wedi darparu mewnwelediadau hanfodol o'r modd y mae pobl yng Nghymru yn ymdopi. Mae ein harolwg diweddaraf yn cynnig y diweddaraf ar y modd y mae pobl yng Nghymru'n ymdopi ar gychwyn blwyddyn newydd.

1.1 Canfyddiadau allweddol

NI welwyd unrhyw welliannau mawr yn safonau byw pobl ar draws Cymru ers ein harolwg diwethaf ym mis Gorffennaf 2023. Mae hyn yn peri pryder bod lefelau uwch o dlodi a chaledi ariannol wedi tyfu i fod y "normal newydd". Yn y "normal newydd" hwn:

- Mae dros un o bob wyth (13 %) o bobl ar draws Cymru weithiau, yn aml neu bob amser, yn cael trafferth i fforddio'r hanfodion.
- Mae nifer fawr o bobl yn mynd heb yr hanfodion, gan gynnwys dros dri o bob deg (31%) heb wres yn eu cartrefi a bron i un o bob pedwar yn bwyta prydau bwyd llai neu hepgor prydau yn gyfan gwbl (24%).
- Mae dyled yn broblem sylweddol gyda 28% yn benthyg arian yn ystod y tri mis o fis Hydref 2023 ac 13% mewn dyled gydag o leiaf un bil am o leiaf un mis ym mis Ionawr 2024.
- Mae sefyllfa ariannol pobl yn effeithio'n negyddol ar ei hiechyd. Mae 44% o bobl yn nodi hyn o ran eu hiechyd meddwl a 30% yn nodi hyn o ran eu hiechyd corfforol.
- Mae'r effaith negyddol sefyllfa ariannol pobl sy'n effeithio ar eu hiechyd hefyd yn effeithio ar eu gallu i weithio. Mae hanner (50%) yr holl bobl a nododd fod eu sefyllfa ariannol wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd yn dweud bob eu gallu i weithio wedi cael ei effeithio'n negyddol.
- Mae pobl yn pryderu am y perygl o golli eu cartref gydag 14% yn poeni y gallen nhw gael eu gael eu troi allan neu bod eu cartref yn cael ei ailfeddiannu yn ystod y tri mis o Ionawr 2024
- Mae'n fwy tebygol mai grwpiau o bobl sy'n byw mewn teuluoedd â phlant, pobl anabl, rhentwyr neu rai ar incwm isel fyddai'n riportio eu bod yn wynebu caledi na'r boblogaeth yn gyffredinol.

Roedd yr arolwg diweddaraf yn cynnwys cwestiynau newydd a luniwyd er mwyn cael dealltwriaeth gliriach o'r modd y mae teuluoedd gyda phlant yn ymdopi'n ariannol. Mae atebion rhieni yn eitha arswydus. Yn syfrdanol, nododd 22% o rieni plentyn o dan 12 oed nad oedd eu plentyn wedi cael parti penblwydd oedden nhw'n ddymuno oherwydd eu sefyllfa ariannol. Mae lleiafrif sylweddol o blant yn colli allan ar wersi chwaraeon (21%) neu wersi cerddoriaeth (18%) gyda'r mwyafrif o'r rhain yn colli allan yn gyson.

Yn olaf, gofynnodd ein harolwg i bobl am eu disgwyliadau am y flwyddyn sydd o'n blaenau. Mae pobl yn eithriadol o besimistaid am eu rhagolygon personol, am ragolygon eu cymunedau ac am ragolygon Cymru fel cenedl:

- Dim ond 15% sy'n disgwyl y bydd eu safonau byw personol yn gwella dros y 12 mis o fis Ionawr 2024, tra bod 36% yn eu disgwyl i ddirywio ymhellach.
- Mae 50% o bobl yn disgwyl bydd safonau byw pobl sy'n byw yn eu cymuned yn gwaethygu dros y 12 mis nesaf, tra mai dim ond 7% sy'n disgwyl iddyn nhw wella.
- Mae 57% o bobl yn disgwyl i safonau byw pobl sy'n byw yng Nghymru waethygu dros y 12 mis nesaf, tra mai dim ond 9% sy'n disgwyl iddyn nhw wella.

1.2 Gwybodaeth am y briffio hwn

Daw'r holl ffigyrau a ddyfynnir yn y briffio hwn, oni bai y nodir yn wahanol, gan YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,029 o oedolion. Cynhaliwyd gwaith maes rhwng Ionawr 15 a Ionawr 18, 2024. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Pwysolwyd y ffigyrau (oni bai y nodir yn wahanol) ac maen nhw'n gynrychiadol o holl oedolion Cymru (16+ oed). Ceir dadansoddiad llawn o faint y sampl ar gyfer grwpiau demograffig y cyfeirir atyn nhw yn yr adroddiad hwn yn Atodiad yr adroddiad.

2. Casgliad

Prin ydy'r arwyddion bod yr argyfwng costau byw yn lleddfu yng Nghymru. Gyda miloedd o bobl yn parhau i gael trafferth i gael dau benllinyr ynghyd a bod pobl yn besimistaidd iawn am yr hyn sydd gan y 12 mis nesaf i'w gynnig ac mae sail go wir i bryderu mai lefelau uwch o dlodi a chaledi ariannol ydy ein normal newydd.

Caiff y normaleiddio hwn ar dlodi uchel yn ein cymunedau effaith sylweddol ar fywydau pawb. Mae'n debygol y bydd y galw am wasanaethau cyhoeddus, a'r trydydd sector, er enghraifft, yn parhau 'n eithriadol o uchel. Fel mae'r adroddiad hwn wedi dangos, mae argyfwng costau byw wedi golygu ei fod yn effeithio'n negyddol ar iechyd miloedd o bobl. Mae hyn yn gosod mwy o bwysau ar y GIG ar adeg pan fo'r gwasanaeth eisoes o dan strés sylweddol.

Mae effaith yr argyfwng hefyd yn annhebygol o ddiflannu dros nos. Hyd yn oed os bydd y sefyllfa ariannol yn gwella, mae'n debygol y bydd effaith yr argyfwng costau byw ar blant, er enghraifft, yn parhau arnyn nhw am flynyddoedd. Dylai'r ffaith bod cymaint o blant yn dioddef o oerni, diffyg bwyd a cholli allan ar weithgareddau allgyrsiol, fod yn fater o bryder i ni gyd.

Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn cydnabod nad ydy'r synnwyr o frys hwnnw, oedd yn nodwedd o'r ymateb i'r pandemig a'r argyfwng costau byw, ddim yn cael ei anghofio. Dydy hi ddim yn normal bod dros dri o bob deg o bobl yng Nghymru ar eu cythlwng. Mae gwir berygl, wrth i ni weld y ffigyrau hyn yn cael eu hailadrodd fis ar ôl mis, y bydd y sioc a'n dymuniad i sicrhau newid yn cael ei wanhau. Gydag Etholiad Cyffredinol y DU ar y trothwy a Phrif Weinidog newydd Cymru i fod yn ei swydd o fewn wythnosau, mae'n hanfodol bod tlodi yn parhau yn fod yn fater allweddol ar yr agenda gwleidyddol.